**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

E-bost: SeneddIechyd@senedd.cymru

15 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a osodwyd ar 14 Chwefror ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memoranda Rhif 2 a Rhif 3) (y MCDA) ar y Bil Iechyd a Gofal (y Bil).

Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ar y Bil a'r Memoranda a osodwyd ar 17 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr 2022 yn y drefn honno.

Gweler fy ymatebion i'ch argymhellion penodol isod.

**Argymhelliad 1 - Cymal 87 (Cymal 85 gynt) (Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau)**

Argymhelliad 1
Dylai'r Gweinidog, cyn neu yn ystod y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Lywodraethau Cymru a'r DU i gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynghylch Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau, a chadarnhau a fydd ar waith cyn i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (os ac unwaith y cânt eu deddfu) ddod i rym.

Ymateb
Gall y Pwyllgor fod yn sicr bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â Systemau Gwybodaeth Meddyginiaethau yn cael ei ddatblygu. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan y bydd yn gwneud ei gorau i sefydlu'r Memorandwm cyn y daw'r darpariaethau i rym, ond fan bellaf cyn drafftio rheoliadau.

**Argymhellion 2 a 3 - Cymalau 149, 144 a 91 (cymalau 89, 125 a 130 gynt): Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddfwriaeth y Senedd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Argymhelliad 2
Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol perthnasol, esbonio a meintioli'r risg y mae'n ei disgrifio ym mharagraff 33 o Femorandwm Rhif 3.

Ymateb
Mae'r cymalau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth, drwy reoliadau, sy'n ganlyniadol i'r Bil hwn. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n addasu fel arall ddarpariaeth a wneir gan neu o dan Ddeddf neu Fesur Senedd Cymru.

Fel y nodais yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 3 Chwefror, ac fel y nodwyd yn y Memorandwm (Rhif 3), rwyf i a'm swyddogion wedi cyfarfod â'r Gweinidog Gwladol dros Iechyd, Edward Argar AS a'i swyddogion ar sawl achlysur i drafod y darpariaethau hyn. Mae Llywodraeth y DU o'r farn mai cymalau safonol yw'r rhain ac mae'n wir fod Cymru yn yr un modd yn defnyddio pwerau yn Neddfau Senedd Cymru i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

Mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi rhoi enghreifftiau o sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn. Mae'n debygol mai mân ddiwygiadau fyddai'r rhain, er enghraifft newid enw sefydliad yn Lloegr y cyfeirir ato yn neddfwriaeth Senedd Cymru lle mae swyddogaethau wedi'u trosglwyddo. Maent hefyd wedi cadarnhau'n benodol nad ydynt yn bwriadu defnyddio'r pwerau yng nghymal 149 i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Gweinidog Gwladol dros Iechyd hefyd, drwy'r Arglwydd Kamall, wedi gwneud Datganiad Blwch Dogfennau mewn perthynas â chymalau 91 a 149, yn ymdrin â sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn. Cafodd y Datganiad ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Chwefror. Fel y nodais yn fy ymateb blaenorol, nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi bod cymal 144 yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd ac felly ni fyddai wedi'i gynnwys yn y Datganiad Blwch Dogfennau.

Ar sail yr holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU a'r Datganiad, rwyf o'r farn bod y risg i ddeddfwriaeth Senedd Cymru yn sgil y darpariaethau yn fach ac rwy'n argymell y dylid rhoi cydsyniad Senedd Cymru i gymalau 91, 144 a 149.

Argymhelliad 3
Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i'r perwyl na all Gweinidogion y DU ddefnyddio'r pwerau yn y Bil i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, gadarnhau ei bod wedi ceisio gwelliant o'r fath a diweddariad i'r Senedd am y sefyllfa ddiweddaraf

Ymateb
Fel yr wyf wedi nodi uchod yn fy ymateb i Argymhelliad Rhif 2 y Pwyllgor, rwyf wedi trafod y darpariaethau hyn yn drylwyr gyda Llywodraeth y DU ac rwy'n fodlon â'r holl sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth y DU. O ganlyniad, nid wyf wedi cysylltu â Llywodraeth y DU i ofyn am welliant o'r fath.

**Argymhelliad 4 - Cymalau 135 a 153 – Fferyllfeydd Cymunedol**

Argymhelliad 4
Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, esbonio'n llawn pam nad yw'n ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 153 o'r Bil.

Ymateb
Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor bod cydsyniad Senedd Cymru'n cael ei geisio ar gyfer yr holl gymalau yn y Bil sy'n effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Yn y Memorandwm (Rhif 2), fe wnes i gynnwys adran ar y cymal ynghylch Ad-daliadau i Fferyllfeydd Cymunedol ac o fewn yr adran honno cyfeiriwyd at y diwygiadau i gymal 153 (cymal 169 erbyn hyn) sy'n rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ddechrau'r cymal (paragraff 47). Ym mharagraff 53 o'r Memorandwm (Rhif 2), dywedais fod y gwelliannau y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau blaenorol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru fel diben y gwelliannau sy'n ymwneud â materion datganoledig.

Nid yw'r darpariaethau perthnasol yng nghymal 153 (cymal 169 bellach) yn gwneud unrhyw beth sylweddol heblaw caniatáu i Weinidogion Cymru ddechrau darpariaethau y ceisir cydsyniad Senedd Cymru arnynt eisoes yn y Memorandwm (Rhif 2). Felly, er y gallai'r geiriad fod wedi bod yn gliriach o bosibl, mae'r ddarpariaeth berthnasol o fewn y cymal hwnnw yn gysylltiedig â'r prif ddarpariaeth yn y cymal ar Ad-daliadau i Fferyllfeydd Cymunedol.

Yn y Memorandwm (Rhif 2) dywedais fy mod yn fodlon â chymal 135. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod cydsyniad y Senedd yn cael ei geisio ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd, ac nid fesul cymal. Credaf felly fod cymal 153 (cymal 169 bellach) wedi'i gynnwys a bod cydsyniad y Senedd yn cael ei geisio ar ei gyfer.

O ran pwynt y Pwyllgor yn yr adroddiad nad yw'r rheoliadau i ddechrau'r cymal ar Ad-daliadau i Fferyllfeydd Cymunedol yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn ddeddfwriaethol, byddwn yn cynghori bod hyn yn arfer safonol ar gyfer gorchmynion cychwyn ac nad yw'r pŵer i wneud rheoliadau ond yn galluogi i Weinidogion Cymru gychwyn prif ddarpariaethau (neu wneud darpariaeth drosiannol neu arbed sy'n gysylltiedig â chychwyn).

**Argymhellion 5, 6, 7 a 8 – Cymal 136 – Cytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol**

Argymhelliad 5
Yn absenoldeb cyflwyno gwelliannau i wyneb y Bil yn unol ag argymhelliad 5 yn ein hadroddiad cyntaf, credwn y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y profion a'r meini prawf eang a fydd yn cael eu defnyddio wrth benderfynu beth yw 'amgylchiad eithriadol' at ddiben cymal 136. Dylai'r Gweinidog fynd ar drywydd y mater hwn yn uniongyrchol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ymateb
Fel y nodwyd yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 3 Chwefror, yn fy marn i, nid yw'n briodol i osod prawf clir a chymesur ar wyneb y Bil ar gyfer yr hyn a fyddai'n gymwys fel 'amgylchiadau eithriadol' at ddibenion y swm neu'r math o ofal iechyd y gellir ei ariannu y tu allan i gytundeb gofal iechyd rhyngwladol, gan y gallai hyn gael effaith niweidiol neu gyfyngol ar y gallu i ddarparu cymorth pan fo'i angen.

Nodaf gais y Pwyllgor y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y profion a'r meini prawf eang a ddefnyddir wrth benderfynu beth sy'n 'amgylchiadau eithriadol' at ddibenion cymal 136. Byddaf yn archwilio hyn gyda Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 6
Dylai'r Gweinidog weithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad yn cael ei ddiweddaru cyn gynted â phosibl i adlewyrchu'r trefniadau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd (gan gynnwys prosesau datrys anghydfodau) y cytunwyd arnynt ac y'u cyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2022.

Ymateb
Mae fy swyddogion eisoes wedi rhoi gwybod i'w cymheiriaid yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr angen i wneud hyn ac maent yn ei dderbyn, ac yn ymrwymo'n llawn i wneud hynny.

Argymhelliad 7
Yn dilyn argymhelliad 6, rhaid i'r Gweinidog ddarparu i'r Senedd y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad cyn gynted ag y bydd wedi'i chytuno a'i chwblhau.

Ymateb
Byddaf yn rhoi fersiwn ddiweddaraf y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar ofal iechyd cyfatebol i'r Senedd cyn gynted ag y bydd wedi'i ddiwygio a'i gytuno gan y pedair gwlad.

Argymhelliad 8
Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol anfasnachol, dylai'r Gweinidog ymrwymo i roi gwybod i ni am unrhyw gytundebau rhyngwladol sydd ar droed a fydd yn dod o fewn cylch gorchwyl y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'r broses ymgynghori ar gytundebau gofal iechyd rhyngwladol a'u gweithrediad.

Ymateb
Rwy'n hapus i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw gytundebau o'r fath ar yr adeg berthnasol yn y broses negodi pan fydd hawl i wneud yr wybodaeth yn gyhoeddus.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services